Cyhoeddiad Stadiwm/ Rhaglen / Erthygl ar y wefan

Heddiw, rydym yn cynnal gêm "Mis Gweithredu Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth" yn erbyn _____. Bydd chwaraewyr yn dal y cerdyn " Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth" i fyny cyn y gêm i hyrwyddo gwrth-hiliaeth a dangos safbwynt ein clwb yn erbyn hiliaeth mewn pêl-droed a'r gymdeithas ehangach.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn elusen wrth-hiliaeth addysgol. Rydym yn gweithio i herio hiliaeth trwy rymuso modelau rôl o fewn cymunedau, sefydliadau, a chwaraeon er mwyn datgymalu hiliaeth yn ein cymdeithas.

Gwnawn hyn drwy:

- Ddarparu addysg ac adnoddau o ansawdd uchel i addysgu pobl ifanc
- Ymgorffori ethos gwrth-hiliol mewn polisi ac ymarfer ac addysgu oedolion
- Buddsoddi yn ein sefydliad a'n pobl i ddatblygu cydweithwyr yn barhaus ac yn broffesiynol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.

Yn ystod mis Hydref, mae clybiau pêl-droed ledled Cymru yn dangos eu cefnogaeth i Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
drwy gynnal gweithred ar ddiwrnod gêm yn dangos eu safbwynt ar ddileu hiliaeth o'r gêm brydferth. Mae'r gweithredoedd hyn yn gweithredu fel cyfrwng i gyfleu neges wrth-hiliol i'r gymuned trwy bŵer chwaraeon.

Gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau'r gêm heddiw. Cefnogwch y chwaraewyr i ddweud NA wrth hiliaeth. Os byddwch chi'n gweld neu'n clywed hiliaeth, rhowch wybod i'r stiward neu swyddog y clwb.

I gyfrannu at Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
, ewch i theredcard.org neu'r dudalen JustGiving.

https://www.justgiving.com/page/moacymru25?utm_medium=FR&utm_source=CL&utm_campaign=015

Mae rhagor o fanylion am yr ymgyrch a sut y gallwch chi a'ch clwb fod yn rhan o'r Mis Gweithredu ar gael drwy ymweld â'r wefan www.theredcard.org neu drwy gysylltu â tom@theredcardwales.org